Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 23 Medi 2013 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer – Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Simeon Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

84. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Elisabeth Culshaw a Menna Jones.

85. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

86. MR DAVID JONES, A.S.

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S. ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chyfeiriodd at ddatganiadau diweddar i wella economeg Gogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys trydaneiddo arfaethedig llinell Gogledd Cymru ac mae'n gweithio gyda Network Rail yn y cyswllt yma.
Ymhlith y materion a drafodwyd gydag aelodau heno 'roedd: llifogydd mis Tachwedd diwethaf yng Nglasdir. Bu methiant; ni wnaeth y bwnd weithio gyda'r grid mewn gwirionedd yn gweithredu fel rhwystr. Mae'n awyddus i gynorthwyo Cyngor Sir Ddinbych ac i wella'r amddiffynfeydd llifogydd. Mater arall oedd ad-drefnu ysgolion ac mae'n bryderus am ddyfodol rhai o'r ysgolion bychain yn yr ardal. Mae hefyd yn dod yn fwyfwy pryderus am wasanaethau Ysbytai ac mae'n aros am gynigion priodol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
Trafodwyd materion lleol gan gynnwys uwchraddio ffordd A525 o Ddinbych i Ruthun; cwmnïoedd lleol yn bidio am gontractau mwyaf; e.e.. carchar arfaethedig Gogledd Cymru yn Wrecsam. Mae'n teimlo fod yr economi yn gwella. Bydd y gwaith yng Nglasdir yn costio £300k ac yn darparu lefel uwch o ddiogelwch gyda thrafodaethau hir eisoes wedi cymryd lle. Diolchwyd iddo gan y Maer.

87. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

2 Gor	Beirniadu blodau ar gyfer Sioe Flodau Rhuthun
5 Aws	Eisteddfod Sir Ddinbych
17 Aws	Beirniadu tractorau a HGV yn Sioe Flodau Rhuthun.
31 Aws	Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl.
2 Med	Cyfarfod Glasdir; Cyfarfod Preswylwyr Glasdir yn Awelon.
6 Med	Gwasanaeth a drefnwyd gan Mr Ivor Richards yn Eglwys Sant Pedr.
10 Med	Cyfarfod parthed Tan Gwyllt Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog.
16 Med	Agor siop 'Black Dog Picture Framing'
18 Med	Alun Davies A.C., Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd – Stad Glasdir.

88. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Blynyddol Cyngor am Bopeth, Glasdir, Gwasanaeth yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. James Bryan	Groes Goch, Cyfarfod parthed Tan Gwyllt Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog .
Cyng. June Derry	Groes Goch, lansio arddangosfa Edward Pugh, cyfarfod Glasdir.
Cyng. Sioned Foulkes	Groes Goch, lansio arddangosfa Edward Pugh, Ffrindiau Cae Ddôl.
Cyng. Ken Hawkins	Lansio arddangosfa Edward Pugh, Smith of Derby parthed Twr Cloc, stondin Rhuthun yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cyng. Simeon Jones	Lansio arddangosfa Edward Pugh.

Cyng. Robert Owen Ellis	Groes Goch yn Llanfwrog, Banc Bwyd x 7, Sioe Flodau Rhuthun, Menter Iaith, Cymorth Llifogydd Rhuthun Cyfyngedig.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Blynyddol Ymlaen Rhuthun, Groes Goch, Cymdeithas Preswylwyr Glasdir, Ymlaen Rhuthun.
Cyng. Katy Morgan Williams	Siopa hwyr, Cymdeithas Preswylwyr Glasdir x 2, Cyfarfod gydag Alun Davies, A.C.
Cyng. Geraint Woolford	Carl Sargeant parthed Tai, Crïwr y Dref, Sioe Flodau Rhuthun, 'Black Dog Framing'.
Cyng. Emrys Wynne	Lansio arddangosfa Edward Pugh, baneri i'r Eisteddfod, Baneri'r Dref, stondin Rhuthun yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfarfod Glasdir yn Awelon, Cyfarfod gydag Alun Davies, A.C. parth Glasdir.

89. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2013.*

90. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 74(b) – CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL - CYMDEITHAS GYMUNEDOL LLANFWROG - ARDDANGOSFA TAN GWYLLT

***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £1,000.00 tuag at y tan gwyllt eleni. Yn ychwanegol, i warantu unrhyw golled a wneir hyd at uchafswm o £500.00. Mae hyn ar sail derbyn copi o gyfrifon incwm a chostau am y digwyddiad os cyflwynir cais.*

91. PWYLLGOR PWERAU BRYS

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2013.*

92. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 20013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

93. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor :

(a) cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2013

(b) cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

94. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GRWP BWYDO AR Y FRON, RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr, ynghyd â thaflen, gan y grŵp uchod, yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at eu costau.

***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £100.00 (mewn ffurf taleb archfarchnad) i'r Grŵp yma.*

95. STRATEGAETH PARTH Y CYHOEDD

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych ynghyd a chopi o'r strategaeth uchod ac i gyflwyno sylwadau erbyn Dydd Iau, 31ain Hydref 2013 (dogfen eisoes wedi ei gyflwyno i'r Grŵp Archwilio Dogfennau ac e-bostiwyd / postiwyd i'r holl aelodau ar 12 Awst).

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr e-bost.*

96. NODIADAU BRIFFIO - RHYBUDDION COSB BENODEDIG

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau iddynt dderbyn yr uchod oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych anfonwyd drwy e-bost / post.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau derbyn yr uchod.*

97. GORCHMYNION SEFYDLOG

Gofynnwyd i'r aelodau ddiweddaru Gorchmynion Sefydlog y Cyngor Tref (copi a ddiweddarwyd gyda newidiadau arfaethedig / ychwanegiadau, ddosbarthwyd ar ddiwedd cyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor Tref).

(a) newidiadau / ychwanegiadau i Adrannau 6, 8, 17(b) &b 9C0, 49, 63 a 73.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r newidiadau / ychwanegiadau.*

(b) trafod ac ystyried newidiadau i Adran 68 (a) - Rheolau Sefydlog ar Gytundebau.

***PENDERFYNWYD**: peidio gwneud dim newidiadau ond i'r Pwyllgorau unigol fynd allan am dendr, os maent yn dymuno.*

98. CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

Derbyniodd yr aelodau wahoddiad i'r Cyfarfod Blynyddol o'r Mudiad uchod i'w gynnal yn Theatr Pafiliwn y Rhyl, Y Rhyl bore Dydd Gwener, 6ed Rhagfyr 2013 am 10:00 a.m.

***PENDERFYNWYD**: bod Cyng. Stephen Beach yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol.*

99. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2014

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo dyddiadau ar gyfer cyfarfod y flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo'r dyddiadau.*

100. RHYBUDD DIWEDDU ARCHWILIAD –BLWYDDYN I 31 MAWRTH 2013

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth UHY Hacker Young, Archwilwyr Allanol, yn dilyn diw archwiliad.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

101. MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Derbyniodd yr aelodau wahoddiad i Gyfarfod Blynyddol y mudiad uchod i'w gynnal ym Mhrestatyn ar ddydd Mercher, 2ail Hydref am 6:45 p.m.

***PENDERFYNWYD**: bod Cyngr. Sioned Foulkes ac Emrys Wynne yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol.*

102. CYMDEITHAS TAI CLWYD

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o Adroddiad Blynyddol y Gymdeithas uchod am y flwyddyn 2012 – 2013

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr Adroddiad Blynyddol.*

103. CANOLFAN AWELON

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o Adroddiad Blynyddol 2012/ 2013 a gofynnwyd i'r aelodau nodi y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol brynhawn ddydd Llun, 21ain Hydref 2013 am 3:30 p.m. yng Nghanolfan Awelon.

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr Adroddiad Blynyddol – bydd Cyngr. Stephen Beach, James Bryan a Rosie Hughes-Moseley yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol.*

104. PARTH 20 M.Y.A.

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Llyr Gruffydd, A.C. parthed yr uchod.

***PENDERFYNWYD**: bod Cyng. Emrys Wynne yn ymateb i'r e-bost.*

105. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Awst 2013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

106. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

(a) eitemau a gymeradwywyd a'i harwyddo yn y Pwyllgor Pwerau Brys gynhaliwyd ar 19 Awst 2013

D.D.	B.T.	Gwasanaeth broadband	*	60.96
453	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
454	C. H. Munday Limited	Tarian wal gyda sgrôl top	*	415.74
455	Scottish Power	Goleuadau Nadolig	*	65.02
456	Planhigion Glyndŵr	Plannu a chyflenwi 80 plannwr.	*	2,821.20
457	Fineline Printing & Stationery	Baneri Croeso x 3	*	171.00
458	C.G.C.C.T. a Ch.M.	Tanysgrifiad Blynyddol		35.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £581.25)

(b) eitem a gymeradwywyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer (cytunwyd yng nghyfarfod mis Mehefin).

459	Siambr Fasnach Rhuthun	Cyfraniad tuag at gynhyrchu Map y Dref.		500.00

(c) eitemau i'w cymeradwyo yn y cyfarfod yma.

D.D.	B.T.	Teliffon	*	116.12
460	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
461	Inland Revenue	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
462	Ground Control	Torri Glaswellt – Awst 2013	*	444.52
463	Dafydd Williams	Engrafo cwpanau (talwyd arian).	*	24.00
464	Dafydd Williams	Stampiau ayyb (Dawns Elusennol)		25.00
465	Ground Control	Torri Glaswellt – Medi 2013	*	444.52
464	James Bryan	Costau Teithio		19.80
467	Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog	Cyfraniad tuag at Arddangosfa Tan Gwyllt		1,000.00
468	Dafydd Williams	Cyfraniad - Grŵp Bwydo ar y Fron -talebau Co-operative.		100.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £186.53)

107. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 28 Hydref 2013.